

“Sefydliad y GIG”

Protocol Taliadau Recriwtio a Chadw

Cymeradwywyd gan: Fforwm Partneriaeth Cymru

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2020

Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2023

C Y N N W Y S

1. Cyflwyniad
2. Nod y protocol hwn
3. Cwmpas
4. Diffiniadau / Geirfa
5. Safonau ac Arferion
6. Monitro

Atodiad 1 – Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Taliad Recriwtio a Chadw

1. Cyflwyniad

- 1.1 Sail system gyflogau'r GIG yw bod gweithwyr yn derbyn cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal. Fodd bynnag, derbynnir y bydd grymoedd y farchnad yn berthnasol i rai swyddi a rhai ardaloedd daearyddol penodol. Gellir mynd i'r afael â grymoedd y farchnad drwy wneud Taliad Recriwtio a Chadw lleol.
- 1.2 Gosodir yr egwyddorion a'r rheolau mewn perthynas â Thaliadau Recriwtio a Chadw yn Adran 5 ac Atodiad 10 yn Llawlyfr Telerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG.
- 1.3 Os bydd sefydliadau'n dymuno cyflwyno Taliad Recriwtio a Chadw, bydd rhaid gweithredu'r protocol hwn ar y cyd.

2. Nod y protocol hwn

Nod y protocol yw darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar y broses ar gyfer penderfynu ar Daliadau Recriwtio a Chadw a'r broses ar gyfer ymgynghori ar y Taliadau Recriwtio a Chadw arfaethedig cyn eu gweithredu.

3. Cwmpas

Mae'r polisi'n berthnasol i swyddi Telerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG lle byddai pwysau'r farchnad, fel arall, yn atal y sefydliad rhag gallu recriwtio a chadw staff mewn niferoedd digonol (ar gyfer y swyddi dan sylw) ar gyflog arferol y swydd.

4. Diffiniadau / Geirfa

Taliadau Recriwtio a Chadw – Mae'r rhain yn ychwanegiadau at gyflog swydd neu grŵp o swyddi tebyg lle byddai pwysau'r farchnad fel arall yn atal y cyflogwr rhag gallu recriwtio neu gadw digon o staff ar y cyflog arferol ar gyfer swyddi o'r fath.

Taliadau Recriwtio a Chadw Tymor Byr – Bydd y rhain yn berthnasol lle disgwylir i amodau'r farchnad lafur, sy'n achosi problemau recriwtio a chadw, fod yn rhai tymor byr, a lle disgwylir i'r angen am y premiwm ddiflannu neu leihau yn y dyfodol agos.

Taliadau Recriwtio a Chadw Tymor Hir – Bydd y rhain yn berthnasol lle bo amodau'r farchnad lafur wedi'u gwreiddio'n ddyfnach ac ni ddisgwylir i'r premiymau amrywio'n sylweddol yn y dyfodol agos.

5. Safonau ac Arferion

5.1 Y Mathau o Daliadau Recriwtio a Chadw

Ar hyn o bryd, mae dau fath o Taliad Recriwtio a Chadw sydd ar gael i'w hystyried. Maent yn cynnwys Taliad Recriwtio a Chadw tymor hir sydd wedi'i gytuno'n lleol a Taliad Recriwtio a Chadw tymor byr sydd wedi'i gytuno'n lleol. Dylai cyflogwyr benderfynu ar y cyd â chynrychiolwyr staff lleol a yw'r broblem yn debygol o gael ei datrys yn y dyfodol agos (os felly, dylai unrhyw

bremiymau fod yn rhai tymor byr) neu a yw'r broblem yn debygol o barhau'n ddiderfyn (os felly, dylai unrhyw breimiymau fod yn rhai tymor hir).

Daeth pob Taliad Recriwtio a Chadw cenedlaethol i ben ar 1 Ebrill 2013.

5.2 Pennu'r Angen am Daliad Recriwtio a Chadw Lleol

5.2.1 Rhaid i'r achos dros daliad Recriwtio a Chadw fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll her hawliad Cyflog Cyfartal / Gwerth Cyfartal, h.y. bod y taliad yn cael ei wneud o ganlyniad i ffactor perthnasol y gellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol, os yw'n berthnasol. Felly, fel egwyddor gyffredinol, dylai sefydliadau'r GIG ddangos eu bod wedi gweithredu pob mesur ymarferol nad yw'n ymwneud â chyflogau i ddatrys problem recriwtio a/neu gadw cyn ystyried gwneud Taliad Recriwtio a Chadw a bod Taliad Recriwtio a Chadw yn debygol o ddatrys y mater.

5.2.2 Y prif ffactorau fydd yn nodi achos *prima-facie* dros ystyried Taliad Recriwtio a Chadw yw methiant cyson i recriwtio i swydd/swyddi penodol a/neu lefel uchel o drosiant staff mewn swydd/swyddi penodol. Felly, wrth bennu a ddylid gwneud Taliad Recriwtio a Chadw, dylid casglu'r dystiolaeth ganlynol ar lefel adrannol mewn ymgynghoriad ag adrannau priodol eraill e.e. cyllid, gan gynllunio ar gyfer ei chynnwys yn yr achos busnes amlinellol (ac yn unol ag Atodiad 10 Llawlyfr Telerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG):

- tystiolaeth bod yr holl swyddi gwag newydd wedi'u hysbysebu ar y cyfryngau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a/neu broffesiynol perthnasol
- tystiolaeth nad yw hysbysebion diweddar wedi esgor ar ddigon o geisiadau addas i lenwi pob swydd wag
- lle nad yw hysbysebion diweddar wedi sicrhau digon o geisiadau addas, dylid gwneud cofnod o'r wybodaeth ganlynol:
 - y cyfryngau a ddefnyddiwyd
 - nifer y pecynnau cais y gofynnwyd amdanynt
 - nifer y ceisiadau a ddychwelwyd
 - rhesymau pam nad oedd y rheiny a ymgeisiodd yn addas
 - dylid craffu ar ansawdd y ddogfennaeth recriwtio (hysbyseb, swydd ddisgrifiad, manyleb person ac ati)
 - dylid ystyried rhoi arolwg barn i'r bobl a ofynnodd am becyn cais ond na chyflwynodd gais am swydd
 - y rhesymau dros beidio â derbyn y swydd, lle roedd ymgeisydd/ymgeiswyr wedi cael cynnig swydd ond wedi ei gwrthod
 - data swyddi gwag cenedlaethol perthnasol
 - gwybodaeth am y farchnad lafur leol
 - unrhyw gynnydd a ddisgwylir yn y cyflenwad o staff addas i'r swydd (e.e. hyfforddeion newydd).
- hyd y swydd wag
- cyfraddau trosiant y grŵp staff dan sylw (a yw trosiant wedi codi'n sylweddol yn ddiweddar ar ôl cyfnod hir o sefydlogrwydd? Ai dim ond staff a benodwyd yn ddiweddar sy'n gadael ac ati?)
- lle bo'n bosibl, dylai cyfraddau trosiant lleol gael eu cymharu â chyfraddau cenedlaethol

- dylid dadansoddi holiaduron y rheiny sy'n gadael ac, yn ddefnyddol, dylid cynnal cyfweiliadau ymadael i asesu i ba raddau y mae cyflog yn ffactor ym mhenderfyniad yr aelod staff i adael y sefydliad
- sefyllfa sefydliadau cyfagos mewn perthynas â recriwtio a/neu gadw'r grŵp staff dan sylw (lle mae sefydliadau cyfagos yn cyflogi'r grŵp staff dan sylw yn unig)
- cyfraddau cyflog allanol nad ydynt yn y GIG

NODER: Dylid darparu rhywfaint o dystiolaeth yn erbyn yr holl bwyntiau bwled allweddol uchod neu, os nad yw'n bosibl darparu dystiolaeth, dylid dogfennu eglurhad ynghylch pam na ellir darparu'r dystiolaeth (e.e. nid yw'n bosibl nodi cyfraddau trosiant oherwydd ei bod yn swydd neu'n rôl sydd newydd gael ei datblygu ac ati).

5.2.3 Bydd yr adran sy'n ceisio Taliad Recriwtio a Chadw yn cwblhau Adrannau 1–6 y ffurflen Achos Busnes Amlinellol dros Daliad Recriwtio a Chadw (Atodiad A) ynghlwm, sy'n nodi'r achos a'r dystiolaeth ar gyfer derbyn Taliad Recriwtio a Chadw. Cyflwynir y ffurflen i Gyfarwyddwr y Gweithle a Datblygu Sefydliadol.

5.2.4 Bydd Adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y sefydliad yn sefydlu panel sy'n cynnwys Rheolwyr (Uwch Reolwr/Uwch Reolwr, ynghyd â chynrychiolydd o Wasanaethau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol) a chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur (o undebau llafur nad ydynt yn ymwneud â'r cais). Argymhellir y dylai'r panel lleiaf gynnwys dau reolwr a dau gynrychiolydd o undebau llafur, y dylid eu cyrchu o'r tu mewn i'r sefydliad ond nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â'r maes rheoli neu'r undeb lafur sy'n cynrychioli'r grŵp staff sy'n cyflwyno'r cais.

5.2.5 Dylai'r panel gyfarfod i adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd ac, os yw'n ystyried ei bod yn briodol, gall ofyn i gynrychiolwyr o'r ardal reoli/grŵp staff dan sylw fynychu cyfarfod gyda'r panel fel y gellir ceisio eglurhad ynghylch manylion y cais.

5.2.6 Bydd angen i'r panel benderfynu a yw Taliad Recriwtio a Chadw yn briodol ac, os felly, y math o Daliad Recriwtio a Chadw sydd ei angen (tymor byr neu dymor hir) ynghyd â lefel Taliad Recriwtio a Chadw o unrhyw fath (cyfeiriwch at Adran 5 y Llawlyfr Amodau a Thelerau Gwasanaeth). Y prawf cyntaf bob amser, o'r dystiolaeth a gasglwyd, fydd a oes modd datrys y broblem recriwtio a/neu gadw drwy weithredu mesurau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau? Efallai y bydd angen gweithredu datrysiadau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a dadansoddi'r rhain cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch gwneud Taliad Recriwtio a Chadw.


5.3 Y Broses Ymgynghori

5.3.1 Unwaith y bydd Sefydliad y GIG wedi penderfynu y gellir datrys problem recriwtio a/neu gadw orau drwy wneud Taliad Recriwtio a Chadw, bydd gofyniad i ymgynghori â chyflogwyr cyfagos, sefydliadau ochr y staff, a rhanddeiliaid eraill cyn gweithredu unrhyw breimiwm. Nod

yr adran hon yw cynnig dull ac amserlen gyson ar gyfer cynnal yr ymgynghoriad hwn.

- 5.3.2** Bydd Sefydliad y GIG sy'n ceisio Taliad Recriwtio a Chadw yn diwygio ac yn cwblhau'r ffurflen Achos Busnes Amlinellol, ac eithrio Adran 7, a dylid sicrhau'n arbennig bod rhanddeiliaid eraill yn cael eu nodi'n glir yn Adran 6.
- 5.3.3** Bydd sefydliadau'r GIG yn cyflwyno'r ffurflen wedi'i chwblhau i Gyflogwyr GIG Cymru. Yna, bydd Cyflogwyr GIG Cymru yn dosbarthu'r ffurflen wedi'i chwblhau i Gyd-gadeiryddion Fforymau Partneriaeth Lleol y sefydliadau cyfagos, ac unrhyw randdeiliaid eraill a nodwyd yn Adran 6 yr Achos Busnes Amlinellol.
- 5.3.4** Ar ôl dosbarthu'r ffurflen, bydd gan y sefydliadau/unigolion 21 diwrnod i ymateb gyda sylwadau i Gyflogwyr GIG Cymru.
- 5.3.5** Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd y panel, a sefydlwyd gan Sefydliad y GIG i ystyried y Taliad Recriwtio a Chadw, yn ailymgynnull i adolygu'r Taliad Recriwtio a Chadw yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd. Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig gan Gyflogwyr GIG Cymru er mwyn gallu cwblhau Adran 7 y ffurflen. Os bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r Taliad Recriwtio a Chadw arfaethedig o ganlyniad i'r sylwadau hyn, bydd Cyflogwyr GIG Cymru yn rhoi gwybod i'r rheiny sy'n ymwneud â'r broses ymgynghori am yr argymhelliad terfynol.
- 5.3.6** Bydd Cyflogwyr GIG Cymru yn derbyn yr argymhelliad terfynol (gyda thystiolaeth gefnogol) ac yn ei gyflwyno i Bwyllgor Busnes Fforwm Partneriaeth Cymru (neu is-bwyllgor dynodedig) am benderfyniad terfynol (bydd y pwyllgor hefyd yn cadarnhau'r cyfnod y bydd y Taliad Recriwtio a Chadw yn berthnasol iddo).

Crynoir y gweithgareddau uchod yn y llwybr prosesau isod:



Cam 5

Os mai penderfyniad y panel yw bod angen premiwm Taliad Recriwtio a Chadw, bydd Cyflogwyr GIG Cymru yn cysylltu â sefydliadau cyfagos a rhanddeiliaid eraill.

**Cam 6**

Bydd y panel sefydliadol yn ailymgynnull i ystyried adroddiad gan Gyflogwyr GIG Cymru ac i gadarnhau ei argymhelliad terfynol.

**Cam 7**

Cyflwynir argymhelliad i Bwyllgor Busnes Fforwm Partneriaeth Cymru (neu is-bwyllgor dynodedig) am benderfyniad terfynol (bydd y pwyllgor hefyd yn cadarnhau'r cyfnod amser y bydd y Taliad Recriwtio a Chadw yn berthnasol iddo).

5.3.7 Bydd angen i Bwyllgor Busnes Fforwm Partneriaeth Cymru (neu is-bwyllgor dynodedig) hefyd gytuno ar unrhyw estyniadau i'r cyfnod y bydd y Taliad Recriwtio a Chadw yn gymwys. [Dechreuir proses adolygu 12 mis cyn dyddiad dod i ben y Taliad Recriwtio a Chadw](#) Bydd y Taliad Recriwtio a Chadw yn dod i ben oni chaiff ei ailgyflwyno i'r pwyllgor am estyniad.

6. Monitro

Dylai Sefydliad y GIG fonitro dyfarnu unrhyw Taliad Recriwtio a Chadw newydd yn ôl y nodweddion gwarchoddedig a bennir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac yn benodol rhywedd. Dylid monitro dyfarnu unrhyw Taliadau Recriwtio a Chadw newydd i sicrhau cydymffurfiad â Deddf Cydraddoldeb 2010 trwy osgoi gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn perthynas â nodwedd warchoddedig fel y nodir yn y Ddeddf honno, yn enwedig rhywedd, a thrwy gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus '

Atodiad A – Cais am Daliad Recriwtio a Chadw

GIG Cymru
Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Taliad Recriwtio a Chadw

Cyf: _____

Dyddiad: _____

<p>Adran 1</p> <p>Sefydliad GIG _____</p> <p>Adran _____</p> <p>Manylion Cyswllt _____</p> <p>Cais am Daliad Recriwtio a Chadw yn cael ei ystyried ar gyfer y grŵp staff canlynol:</p> <p>Swydd(i) yr effeithir arnynt: _____</p> <p>Band Cyflog: _____</p> <p>Nifer y swyddi: _____</p>
<p>Adran 2</p> <p><u>Y Math o Daliad Recriwtio a Chadw:</u> ticiwch fel bo'n briodol</p> <p><input type="checkbox"/> Taliad Recriwtio a Chadw Newydd</p> <p><input type="checkbox"/> Adolygiad o Daliad Recriwtio a Chadw Presennol</p> <p><input type="checkbox"/> Taliad Recriwtio a Chadw Tymor Byr – Cyfnod o Amser: _____</p> <p><input type="checkbox"/> Taliad Recriwtio a Chadw Tymor Hir – Cyfnod o Amser: _____</p> <p>Gwerth Arfaethedig: _____</p> <p>Mae hyn oherwydd:</p> <p><input type="checkbox"/> Anawsterau o ran recriwtio staff</p> <p><input type="checkbox"/> Anawsterau o ran cadw staff</p> <p><input type="checkbox"/> Y ddau</p>

Adran 3 (Rhowch dystiolaeth ar ffurf dogfennau)

Datganiad o angen a thystiolaeth – ffactorau i'w cynnwys: canlyniadau cyfweiliadau ymadael, ymateb i hysbysebion, gwybodaeth am gyfraddau'r farchnad, trosiant, cyfraddau cyflog allanol nad ydynt yn y GIG ac ati.

Adran 4 (Rhowch dystiolaeth ar ffurf dogfennau)

Crynodeb o'r mesurau (a'r canlyniadau) eraill a ystyriwyd / a gynhaliwyd eisoes – e.e. gweithio hyblyg, hyfforddiant a mentrau recriwtio.

Adran 5 (Rhowch dystiolaeth ar ffurf dogfennau)

Buddiannau mesuradwy disgwylidig

Adran 6 (Rhowch dystiolaeth ar ffurf dogfennau)

Goblygiadau i'r economi iechyd – pwy arall y gallai'r cais hwn effeithio arno a pha randdeiliaid y dylid ymgynghori â hwy ynghylch y cais hwn?

Adran 7

Sylwadau gan yr economi iechyd ehangach (i'w chwblhau ar ôl ymgysylltu)

Adran 8 (Rhowch dystiolaeth ar ffurf dogfennau)

Gwerth arfaethedig neu Daliad Recriwtio a Chadw (ar amser)

£

Nifer y gweithwyr

Cyfanswm y gost

£

Adran 9

Dyddiad Adolygu

Disgwyliedig: _____

Enw'r rheolwr sy'n gwneud y

cynnig: _____

Swydd: _____

—

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Llofnod Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol:

Dyddiad:

Llofnod y Cyfarwyddwr

Cyllid: _____

Dyddiad: _____

—

Llofnod ochr y staff: _____

Dyddiad:

At ddefnydd y swyddfa yn unig:

Dyddiad Derbyn yr Achos

Busnes: _____

Dyddiad Cylchredeg a Rhestr o'r

Derbynwyr: _____

Derbyniwyd y sylwadau

gan: _____

Dyddiad cyflwyno'r argymhelliad i Bwyllgor Busnes Fforwm Partneriaeth

Cymru: _____